

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Ar ôl eu cwblhau, rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru

Amcanion polisi

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno gorchymyn Amddiffyn wrth Bontio. Yng Nghymru, roedd cyflwyno trothwy incwm a enillir ar gyfer teuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol o 1 Ebrill 2019 yn sicrhau hawl i brydau ysgol am ddim i'r rhai ag enillion net blynyddol o'u cyflogaeth neu o'u hunangyflogaeth sy'n llai na £7,400. Nod y gorchymyn Amddiffyn wrth Bontio yw diogelu aelwydydd sy'n symud i Gredyd Cynhwysol rhag colli eu hawl i brydau ysgol am ddim, er bod enillion eu haelwyd yn aros yr un fath. Byddai darparu Amddiffyniad wrth Bontio ochr yn ochr â throthwy enillion net blynyddol o £7,400, yn cynnig sefydlogrwydd i deuluoedd trwy sicrhau na fyddai unrhyw blentyn yn colli ei hawl i brydau ysgol am ddim yn ystod y cyfnod y caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno.

I ddiogelu'r plant a nodwyd, cafodd yr Amddiffyniad wrth Bontio ei ddeddfu a'i ddwyn i rym o 1 Ebrill 2019¹, a chanddo ddyddiad gorffen penodedig, sef 31 Rhagfyr 2023. Erbyn y dyddiad hwnnw rhagwelwyd y byddai Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn ledled Cymru. Fel rhan o [ddatganiad yr Hydref 2022](#), cyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, y byddai oedi tan fis Medi 2028 cyn y caiff y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn.

Y bwriad yw peidio ag ymestyn yr Amddiffyniad wrth Bontio y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2023. Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried effaith y penderfyniad hwnnw ar Blant a Phobl Ifanc.

Casglu tystiolaeth a gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Mae dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn gymwys² i gael Prydau Ysgol am Ddim os yw eu rhieni'n cael unrhyw rai o'r taliadau cymorth canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Treth Plant (ar yr amod nad ydynt hefyd yn cael Credyd Treth Gwaith a bod eu hincwm blynyddol yn £16,190 neu'n is cyn treth)
- Eifen warantedig y Credyd Pensiwn

¹ Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2019 – Darpariaethau Darfodol Erthygl 3

²Deddf Addysg 1996 (legislation.gov.uk)

- Credyd Treth Gwaith am gyfnod ychwanegol – a delir am bedair wythnos pan na fyddant yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith mwyach
- Credyd Cynhwysol – mae'n rhaid i enillion yr aelwyd fod yn llai na £7,400 y flwyddyn ar ôl treth. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw incwm o fudd-daliadau.

Mae prydau ysgol am ddim hefyd ar gael i'r teuluoedd hynny a warchodir o dan ein Gorchymyn i Amddiffyn wrth Bontio.³ Nid yw'n cynnwys y dysgwyr ychwanegol sydd bellach yn elwa ar y cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd.

O dan yr Amddiffyniad wrth Bontio, unwaith y bydd plant yn dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, maent yn cael eu hamddiffyn rhag colli eu hawl, hyd yn oed os bydd eu hamgylchiadau'n newid. Mae data diweddar cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) ar gyfer 2023 (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023) yn dangos bod 121,550 o blant yng Nghymru y gwyddys eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sydd wedi'u hamddiffyn wrth bontio. Bydd y garfan o ddysgwyr sydd wedi'u hamddiffyn wrth bontio yn parhau i gael eu diogelu hyd at orffen eu cyfnod addysg presennol (cynradd neu uwchradd), hyd yn oed os yw'r gorchymyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr.

Mae ein hamcangyfrifon canolog yn awgrymu y bydd nifer y disgyblion 4-15 oed yng Nghymru a fydd yn cael eu hamddiffyn wrth bontio oddeutu 30,800 ym mis Ionawr 2024, gan gynyddu i 38,000 ym mis Ionawr 2025 ⁴(+23%) ac yna gostwng i 37,100 ym mis Ionawr 2026 (-3%) a 31,100 ym mis Ionawr 2027 (-16%)

Bydd y cynnydd mawr yn nifer y disgyblion sy'n cael eu hamddiffyn wrth bontio rhwng 2019/20 a 2021/22 yn dilyn y carfannau ar draws y blynyddoedd. Mae'r cynnydd hwyr yn golygu nad ydym yn gweld cyfanswm y niferoedd sy'n cael eu hamddiffyn wrth bontio yn gostwng ar unwaith wrth i'r amddiffyniadau ddod i ben (Rhagfyr 2023), gan fod disgyblion yn cael eu hamddiffyn tan ddiwedd eu cyfnod ysgol.

Y brif garfan sydd mewn perygl o ran peidio ag ymestyn amddiffyniad wrth bontio hyd at 31 Mawrth 2025 yw plant sy'n cael prydau ysgol am ddim, sy'n cael eu haddysgu ym mlwyddyn 6 ar 31 Rhagfyr 2023, ac sy'n byw ar aelwydydd Credyd Treth Plant gydag enillion dros £7,400 pan fyddant yn symud i Gredyd Cynhwysol rhwng diwedd tymor yr haf 2024 a Mawrth 2025 (amcangyfrifir bod tua 1,000 o ddisgyblion).

³ [Datganiad Ysgrifenedig: Diwygio meini prawf cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol \(6 Rhagfyr 2018\) | LLYW.CYMRU](#)

⁴ Nid yw'r Adran Addysg yn gallu darparu amcanestyniadau ar gyfer disgyblion ôl-16 sy'n cael eu hamddiffyn wrth bontio. Felly, gellid ystyried mai amcangyfrif rhy isel yw amcanestyniadau ar gyfer y rheini sy'n cael eu hamddiffyn wrth bontio, gan nad ydynt yn cynnwys y grŵp oedran ôl-16.


Er y byddai ymestyn amddiffyniad wrth bontio hyd at 31 Mawrth 2025 yn amddiffyn y plant hyn, byddai hefyd yn amddiffyn 8,000 yn ychwanegol erbyn mis Ionawr 2026 o'i gymharu â pheidio ag ymestyn yr amddiffyniad. Byddai hyn yn cynnwys cefnogi teuluoedd lle mae amgylchiadau neu enillion yr aelwyd wedi gwella'n sylweddol, o bosibl fel nad ydynt bellach yn cael budd-dal cymwys. Dull o weithredu sydd wedi'i dargedu'n well fyddai archwilio opsiynau i awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau dewisol i beidio â chodi tâl am brydau ysgol dan amgylchiadau penodol.

Mae ystod o nodweddion yn bresennol yn y garfan o ddysgwyr sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim (eFSM) a'r rheini sydd wedi'u hamddiffyn wrth bontio, a bydd rhai ohonynt yn cael eu gorgynrychioli. Fel y cyfryw, mae'n bosibl y bydd y cynnig yn cael effeithiau anghymesur ar rai grwpiau o bobl, er enghraifft, plant ag ADY/AAA (fel procsi i blant anabl) a theuluoedd ag aelod anabl, menywod sy'n unig rieni, plant a theuluoedd sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a rhai teuluoedd ethnig lleiafrifol.

Bydd peidio ag ymestyn amddiffyniad wrth bontio yn golygu na fydd plant, yn enwedig plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a'u teuluoedd (gan gynnwys ceiswyr lloches, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt), plant anabl a theuluoedd ag aelod anabl yn ogystal â menywod sy'n unig rieni a/neu ddiodeffwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn gallu cael gafael ar gymorth ychwanegol wrth iddynt symud ymlaen i waith neu symud i Gredyd Cynhwysol, ac mae'n bosibl y byddant yn parhau i brofi diffyg diogeledd bwyd. Gallai hyn gael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â lleihau diddordeb mewn gweithgareddau cymunedol, addysgol a diwylliannol. Gall teuluoedd gael eu gorfodi i leihau eu gwariant mewn meysydd eraill, megis gwresogi, a allai effeithio ar blant a'u teuluoedd, yn enwedig plant anabl, a theuluoedd lle mae aelod yn anabl. Gallai hyn hefyd effeithio ar risg teulu o gam-drin domestig.

Plant mewn tlodi incwm cymharol

Canran y plant ym mhob gwlad yn y DU sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), cyfartaleddau tair blwyddyn ariannol



Ffynhonnell: Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, yr Adran Gwaith a Phensiynau

Plant, yn gyson, yw'r grŵp oedran sy'n fwyaf tebygol o fod mewn tldi incwm cymharol. Yng Nghymru, roedd 28% o blant yn byw mewn tldi incwm cymharol rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.⁵ Mae'r ganran hon yn is na'r 31% a gofnodwyd y llynedd. Mae hyn yn cyfateb i tua 180,000 o blant dibynnol dan 19 oed.

Adroddiad Plant yng Nghymru ar y 7fed Arolwg Blynyddol o Dldi Plant a Theuluoedd 2023

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Plant yng Nghymru eu canfyddiadau o'u [harolygon blynyddol o dldi plant](#). Roedd yr arolwg yn ceisio cael cipolwg ar brofiadau ac arsylwadau'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Ymatebodd ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o bob un o ardaloedd y 22 awdurdod lleol ledled Cymru. Daeth cyfanswm o 371 o ymatebion i law, ac roedd 84% o'r ymatebwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

Roedd dros 66% o'r ymatebwyr yn gweithio gyda theuluoedd lle'r oedd o leiaf un plentyn yn cael prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UFSM) trwy gam cyntaf y rhaglen honno. Cafwyd canmoliaeth ysgubol i'r ddarpariaeth hon, a phrif sylw'r sylwadau oedd "nid oedd plant mor newynog" drwy'r dydd; roedd plant yn bwyta o leiaf "un pryd maethlon y dydd"; llwyddodd i "leihau stigma" yn sylweddol ar gyfer plant a'u rhieni; ac "mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy ac yn cael gwell hunan-barch".

⁵ Tldi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW.CYMRU

Er bod cyfran o blant a phobl ifanc yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac yn eu cael ar hyn o bryd, nododd ymatebwyr fod llawer mwy mewn angen, ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Gwelwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol i blant mewn teuluoedd sy'n gweithio, ac ar incwm isel.

Ymchwil Sefydliad Bevan i System Fudd-daliadau Cymru

Cyhoeddodd Sefydliad Bevan ymchwil ym mis Mehefin 2023 ar [System Fudd-daliadau Cymru](#). Nododd fod Llywodraeth Cymru, yn ei hymdrechion i ddileu tlodi plant, wedi creu nifer o gynlluniau i gefnogi teuluoedd gyda'u costau byw, megis Prydau Ysgol am Ddim yn ystod y gwyliau, Grant Datblygu Disgyblion a thalebau Cychwyn Iach. Gellir diwygio'r cynlluniau hyn a'u gwella ymhellach er mwyn helpu i godi plant allan o dlodi.

Canfu'r [adroddiad](#) hwn gan Sefydliad Bevan fod bron hanner y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol wedi colli pryd neu gael pryd llai o faint (49 y cant wedi cael pryd llai o faint neu 46 y cant wedi colli pryd).

Ymchwil Ymddiriedolaeth Trussell i Newynu yn y DU

Mae astudiaeth ddiweddaraf a manylaf Ymddiriedolaeth Trussell a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 – [Hunger in the UK](#) – yn datgelu achosion ac effeithiau hyn, a phwy yr effeithir arnynt. Mae'r ymchwil yn ystyried y profiad o newynu yn y DU, ac yn cynnwys adroddiadau ar yr Alban, Gogledd Iwerddon, a Chymru. Nodir bod mwy o bobl nag erioed ledled y wlad eisoes yn gorfod troi at fanciau bwyd a bod miliynau mwy yn ei chael hi'n anodd cael digon o fwyd, ond nad ydynt yn gofyn am gymorth eto. Dywed yr adroddiad fod:

- Diffyg diogeledd bwyd yn effeithio ar fwy na hanner yr aelwydydd, a bod tri chwarter y bobl sydd wedi'u hatgyfeirio at fanciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell yn dweud eu bod nhw neu aelod o'u haelwyd yn anabl.
- Teuluoedd â phlant yn wynebu risg uchel o ddiffyg diogeledd bwyd. Bron hanner (47%) o'r holl aelwydydd y mae diffyg diogeledd bwyd yn effeithio arnynt yn cynnwys plant dan 16 oed.
- Anghydraddoldebau strwythurol yn llywio caledi a diffyg diogeledd bwyd. Mae pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol, menywod, pobl LHDTC+, pobl sydd wedi ceisio lloches erioed a phobl a oedd yn derbyn gofal fel plentyn, oll wedi'u gorgynrychioli yng nghyfran y boblogaeth sy'n profi diffyg diogeledd bwyd ac yn cael cymorth bwyd.

Mae'r ymchwil yn cynnig tystiolaeth fod angen inni allu newid systemau, polisïau ac arferion, fel bod gan bawb yn y DU yr urddas i allu fforddio'r pethau hanfodol.

Ymgysylltu â phobl ifanc

Y bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan y penderfyniad hwn yw plant a phobl ifanc a'u teuluoedd ar fudd-daliadau etifeddol, sy'n symud i Gredyd Cynhwysol ar ôl i'n

gorchymyn amddiffyn wrth bontio presennol ddod i ben ar 31 Rhagfyr, ac y mae eu henillion net blynyddol yn uwch na'r trothwy o £7,400.

Nid ymgynghorwyd ar y cynnig penodol hwn i ystyried ymestyn y gorchymyn amddiffyn wrth bontio. Fodd bynnag ymgynghorwyd yn 2018 ar gyflwyno trothwy enillion ar gyfer Credyd Cynhwysol a'r polisi cysylltiedig i amddiffyn wrth bontio.

Croesawodd nifer o'r ymatebwyr ar y pryd y cynlluniau i amddiffyn wrth bontio, gan nodi eu bod yn deg ac y byddent yn galluogi i effaith y polisi gael ei fonitro'n effeithiol. Nodwyd hefyd y byddai'n sicrhau na fyddai plant, nad oeddent bellach yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan y meini prawf cymhwystra newydd, yn cael eu rhoi dan anfantais – yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch nifer y teuluoedd na fyddai'n gymwys o dan y meini prawf newydd.

Amlygodd sylwadau eraill y gallai cynlluniau i amddiffyn wrth bontio arwain at anghydraddoldeb i deuluoedd sydd o dan yr un amgylchiadau ac yn ennill yr un maint, a rhai yn cael prydau ysgol am ddim drwy amddiffyniad wrth bontio ac eraill ddim yn gallu cael prydau ysgol am ddim oherwydd nad ydynt erioed wedi bod yn gymwys o'r blaen. Felly, yn sgil hynny bu galwadau i'r amddiffyniad wrth bontio gael ei adolygu yn flynyddol i sicrhau bod pawb sydd ei angen yn ei gael, yn hytrach na bod y rheini y mae eu sefyllfa cyflogaeth wedi gwella yn parhau i fod yn gymwys i'w gael.

Casglwyd gwybodaeth trwy ddulliau eraill. Yn benodol, mae gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori ar Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru wedi darparu tystiolaeth ar y mater hwn. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori hwn wedi cynnwys ymgysylltu â 3,358 o blant, pobl ifanc a theuluoedd â phrofiad bywyd, gan gynnwys 1,953 â nodweddion gwarchoddedig. Roedd tlodi bwyd yn thema gyffredin, a nodwyd bod cost bwyd, yn enwedig bwyd iach, yn broblem a chafwyd tystiolaeth am y defnydd o Fanciau Bwyd a chynigion eraill o fwyd rhad neu am ddim. Ar wahân i hyn, tynnodd [adroddiad Comisiynydd Plant Cymru: Gobeithion i Gymru](#) sylw at y ffaith bod bwyd yn bryder mawr ymhlith yr 8,000 o blant a phobl ifanc a arolygwyd e.e. mae 44% o blant 7-11 oed, a 25.9% o blant 11-18 oed yn poeni am gael digon o fwyd i'w fwyta.

Mae tystiolaeth bod plant, yn enwedig y plant ieuengaf, yn bryderus am gael bwyd a bwyta.

Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae data CYBLD ar gyfer 2023 yn dangos y canlynol: *(eFSM = yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim)

Nodwedd	Nifer y disgyblion	Nifer y disgyblion FSM*	% y disgyblion â'r nodwedd sy'n gymwys i gael FSM*	% yr holl ddisgyblion FSM* (121,550) sydd â'r nodwedd	% y rheini â'r nodwedd ac sy'n FSM* o'r boblogaeth ysgol gyfan (469,872)	% y disgyblion â'r nodwedd o'r boblogaeth ysgol gyfan
ADY/AAA	63,089	26,635	42.2	21.9	5.7	13.4
BAME	64,561	18,430	28.5	15.2	3.9	13.7
GRT	1,534	1,050	68.4	0.9	0.2	0.3
Cymysg	18,242	5,466	30.0	4.5	1.2	3.9
Asiaidd	13,217	2,228	16.9	1.8	0.5	2.8
Du	6,378	2,152	33.7	1.8	0.5	1.4
Benyw	230,384	59,693	25.9	49.1	12.7	49.0
Gwryw	239,488	61,857	25.8	50.9	13.2	51.0

* Mae disgyblion FSM yn cynnwys disgyblion eFSM a'r rheini sy'n cael eu hamddiffyn wrth bontio

Rhagwelir y byddai estyniad yn golygu y byddai tua 8,000 o ddisgyblion ychwanegol yn cael eu hamddiffyn wrth bontio ym mis Ionawr 2026, o'i gymharu â pheidio ag ymestyn yr amddiffyniad. Byddai effaith gadarnhaol ymestyn y polisi ar gyfer teuluoedd yr effeithir arnynt yn cynnwys y canlynol:

- Llai o orbryder i deuluoedd a diffyg diogeledad bwyd i blant.
- Byddai rhieni yn gallu diwallu anghenion hanfodol eu plant yn well.
- Ni fyddai teuluoedd a phlant yn gorfod 'mynd heb' bethau angenrheidiol eraill. Er enghraifft, cynhesu'r tŷ, rhieni ac aelodau eraill o'r teulu yn mynd heb fwyd, y gallu i achub ar gyfleoedd cymunedol, addysgol a diwylliannol.

Pe na fyddai'r Gorchymyn Amddiffyn wrth Bontio yn cael ei ymestyn, byddai'r teuluoedd hyn yn cael eu heffeithio. Fodd bynnag, byddai nifer benodol o'r garfan hon yn cynnwys teuluoedd lle roedd amgylchiadau neu enillion yr aelwydydd wedi gwella'n sylweddol, o bosibl i'r graddau nad ydynt bellach yn cael budd-dal cymwys a chymorth. Ac felly nid y teuluoedd hyn fyddai'r teuluoedd y bwriadwyd i'r polisi eu cefnogi yn wreiddiol.

Amcangyfrifir pe na bai amddiffyniad wrth bontio'n cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2025, gallai tua 1,000 o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu ym mlwyddyn 6 ar 31 Rhagfyr 2023 golli prydau ysgol am ddim oherwydd eu bod yn trosglwyddo o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol rhwng diwedd eu cyfnod addysg cynradd ym mis Gorffennaf 2024 a 31 Mawrth 2025 (y dyddiad y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n rhagweld y bydd teuluoedd â phlant yn symud i Gredyd Cynhwysol).

Er y byddai ymestyn amddiffyniad wrth bontio hyd at 31 Mawrth 2025 yn amddiffyn y plant hyn, byddai hefyd yn amddiffyn 8,000 yn ychwanegol erbyn mis Ionawr 2026, o'i gymharu â pheidio ag ymestyn yr amddiffyniad. Serch bod hyn ar y cyfan yn debygol o gefnogi aelwydydd sy'n gweithio ac sy'n fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi cymharol, byddai hefyd yn cynnwys y canlynol:

- Y rhai nad ydynt wedi symud o fudd-daliadau etifeddol, ac felly nid ydynt mewn perygl o golli hawl prydau ysgol am ddim oherwydd eu bod yn symud i Gredyd Cynhwysol.
- Y rhai sydd wedi hawlio Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf ers cyflwyno'r trothwy o £7,400, ac felly nid ydynt mewn perygl o golli hawl prydau ysgol am ddim oherwydd cyflwyno'r trothwy enillion.
- Y rhai y mae eu hamgylchiadau wedi newid, ac nad yw'r aelwyd bellach yn cael budd-dal cymwys.
- Y rhai y mae eu henillion wedi cynyddu'n sylweddol ac, mewn rhai achosion, mae hynny wedi eu tynnu o'r system budd-daliadau lles yn llwyr.

Os na fyddai'r amddiffyniad wrth bontio yn cael ei ymestyn y tu hwnt i fis Rhagfyr 2023, mae rhwydi diogelwch eisoes ar waith ar gyfer teuluoedd. Byddai'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion cynradd yn parhau i gael pryd o fwyd am ddim drwy'r cynllun Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd. A bydd y cynllun hwn yn cynnwys pob plentyn ysgol gynradd o fis Medi 2024. Ar ben hynny, mae awdurdodau lleol yn gallu defnyddio eu pwerau dewisol i beidio â chodi tâl am brydau ysgol mewn amgylchiadau penodol – a byddent yn cael eu hannog i wneud hynny ar gyfer y teuluoedd hynny sydd wedi eu heffeithio yn sgil gorfod symud i Gredyd Cynhwysol.

Mae'n bwysig cydnabod y lefel sylfaen o gymorth sydd eisoes ar gael i blant a theuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim drwy system fudd-daliadau'r DU. Maent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn rhannol am eu bod eisoes yn cael budd-daliadau a weinyddir gan Lywodraeth y DU sy'n ceisio darparu lefel sylfaenol o gynhaliath. Mae'r gorchymyn i amddiffyn wrth bontio yn cyflwyno haen arall i'r cynnig hwn. Fe'i cyflwynwyd yn wreiddiol fel ymyriad tymor byr yn ystod cyfnod o newid wrth symud o fudd-daliadau i Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, p'un a gaiff y polisi ei ymestyn ai peidio, bydd teuluoedd yn parhau i allu cael gafael ar eu lefel sylfaenol o gymorth a ddarperir drwy system fudd-daliadau'r DU, y gellir ei ddefnyddio i helpu i fwydo eu plant. Dylid nodi y gallai rhai teuluoedd fod wedi cael newid mewn amgylchiadau sy'n golygu nad ydynt bellach yn gymwys i gael cymorth drwy system fudd-daliadau Llywodraeth y DU, ond eu bod yn parhau i gael prydau ysgol am ddim tan ddiwedd cyfnod addysg cyfredol eu plentyn.

Gallai penderfyniad i beidio ag ymestyn amddiffyniad wrth bontio gael effeithiau tymor hwy ar rai plant a'u teuluoedd. Er enghraifft, trwy ddileu ymyriad sy'n cefnogi ymdrechion i atal anghydraddoldebau iechyd a gwella eu diddordeb mewn addysg, eu cyrhaeddiad a'u deilliannau. Mae angen ymateb strwythurol strategol ar y canlyniadau tymor hwy hyn ar draws y sector addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn helpu i atal anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau addysg a chyflogaeth. Byddai unrhyw benderfyniad i symud arian o gyllidebau ysgolion, a allai fod yn ofynnol pe bai penderfyniad i ymestyn y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith, yn tansilio'r rhaglen diwygio addysg sy'n ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol hyn.

Yr effaith ar hawliau plant

Mae gwella canlyniadau plant a phobl ifanc o gefndiroedd incwm isel yn rhan ganolog o sicrhau hawliau plant yng Nghymru.

Mae tair hawl benodol y bydd y cynnig polisi hwn yn effeithio fwyaf arnynt:

Noda **Erthygl 24(2)(c)** o CCUHP fod yn rhaid i bartïon gymryd camau priodol i ymladd afiechydon a diffyg maeth, gan gynnwys o fewn fframwaith gofal iechyd sylfaenol, drwy, ymhlith pethau eraill, ddefnyddio technoleg sydd ar gael yn rhwydd a thrwy ddarparu digon o fwydydd maethlon a dŵr yfed glân, gan ystyried peryglon a risgiau llygredd amgylcheddol. Rhaid i briodoldeb y mesurau a roddir ar waith ystyried bodolaeth system nawdd cymdeithasol Llywodraeth y DU, sy'n darparu budd-daliadau cynhaliaeth, rhwyd ddiogelwch y gwasanaethau cymdeithasol a chyllidebau cyfyngedig.

Mae **Erthygl 26** o CCUHP yn darparu bod yn rhaid i Bartïon Gwladwriaethau gydnabod yn achos pob plentyn ei hawl i gael budd nawdd cymdeithasol a rhaid iddynt gymryd y mesurau angenrheidiol i sicrhau bod yr hawl honno'n cael ei gwireddu'n llawn yn unol â'u cyfraith genedlaethol.

Noda **Erthygl 27** bod yn rhaid i Bartïon Gwladwriaethau gydnabod hawl pob plentyn i gael safon byw sy'n ddigonol ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plentyn. Rhieni sy'n bennaf cyfrifol am hyn. Mae Erthygl 27(3) yn darparu bod yn rhaid i Bartïon Gwladwriaethau, yn unol â'r amodau cenedlaethol *ac o fewn eu modd*, gymryd mesurau priodol i gynorthwyo rhieni a phersonau eraill sy'n gyfrifol am y plentyn i weithredu'r hawl hon ac, os bydd angen, rhaid i Bartïon Gwladwriaethau roi cymorth materol a darparu rhaglenni cynnal, yn enwedig mewn perthynas â maeth, dillad a thai. Byddai ymestyn amddiffyniad wrth bontio yn gwella safon byw plentyn. Y dulliau a ddefnyddir i gynorthwyo rhieni yn hyn o beth yw'r rheini a nodir yn system nawdd cymdeithasol y DU, a'r mathau eraill o gymorth a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn. Ar ben hynny, dim ond pan fydd y gallu gan y Wladwriaeth i wneud hynny y mae'r ddyletswydd i gymryd camau priodol i gynorthwyo rhieni yn berthnasol.

Cyflwynwyd amddiffyniad wrth bontio fel ymyriad tymor byr a chanddo ddyddiad gorffen penodedig, sef 31 Rhagfyr 2023. Erbyn y dyddiad hwnnw rhagwelwyd y byddai Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn ledled Cymru. Ni chafodd ei gynllunio erioed i fod yn ymyriad tymor hwy gan y llywodraeth i helpu'r rhai sydd â'r angen mwyaf, gan fod angen atebion polisi strategol a systemig i fynd i'r afael ag effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ar blant a'u teuluoedd.

Gallai peidio ag ymestyn yr amddiffyniad wrth bontio gael rhywfaint o effaith negyddol ar hawliau'r garfan hon o blant fel y disgrifir o dan yr erthyglau uchod. Fodd bynnag, mae swyddogion o'r farn bod nifer y plant yr effeithir arnynt yn isel. Gallai unrhyw effaith negyddol ar blant gael ei lliniaru drwy archwilio opsiynau i awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau dewisol i beidio â chodi tâl am brydau ysgol dan amgylchiadau penodol. Byddai hyn yn sicrhau bod y garfan hon o blant yn parhau i gael pryd maethlon yn yr ysgol (a ddarperir gan yr awdurdod lleol fel y gwêl

orau), pan fo angen, ac nad yw'n cael unrhyw effaith andwyol ar hawliau'r plentyn i elwa ar nawdd cymdeithasol, nac ar gael safon byw ddigonol. Ochr yn ochr â hyn, ac i leihau'r risg ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi pobl i ymdopi â chostau byw drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd ei angen fwyaf a thrwy raglenni a chynlluniau sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl. Mae hyn yn amrywio o bresgripsiynau am ddim a sesiynau nofio am ddim i helpu cannoedd ar filoedd o bobl gyda biliau'r dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi taliadau arian parod i bobl sy'n wynebu argyfyngau ariannol ac yn ariannu gwasanaethau cyngor ar arian a dyled ac undebau credyd. Yn ystod 2022-23 a 2023-24, roedd y cymorth hwn yn werth mwy na £3.3bn. Mae'r dull gweithredu hwn yn parhau i gynorthwyo aelwydydd incwm isel, drwy gynyddu eu hincwm gwario y gellir ei ailgyfeirio wedyn i fwydo eu plant.

Byddai dosbarthu gwybodaeth am wasanaethau cymorth amgen, megis banciau bwyd a chynlluniau chwarae lleol, a chymorth ariannol ychwanegol, megis cynllun cymorth tanwydd Cymru a'r Gronfa Cymorth Dewisol, yn helpu i liniaru'r effaith. Bydd hyn yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â grwpiau penodol â nodweddion gwarchoddedig penodol drwy rwydweithiau rhanddeiliaid. Gellir ehangu'r ymgyrch gyfathrebu sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â chostau diwrnod ysgol, a pharhau i dargedu'r teuluoedd sydd â'r angen mwyaf. Gellir rhannu rhagor o wybodaeth â phlant a theuluoedd drwy'r ymgyrch gyfathrebu 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' sydd wedi'i dargedu at y teuluoedd mwyaf anghenus. Mae'r ymgyrch hon yn hyrwyddo gwybodaeth am gymorth ariannol ychwanegol sydd ar gael i deuluoedd. Byddai hyn hefyd yn cynnwys hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael drwy'r sector gwirfoddol, dulliau elusennol, a'r sector preifat sydd â'r nod o fynd i'r afael â newyn plant.

- Ystyriwch a oes unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 18 oed.

Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar hawliau dinasyddion yr UE/AEE na hawliau dinasyddion y Swistir. Nid oedd unrhyw deuluoedd 'nad oes ganddynt yr hawl i gael arian cyhoeddus' yn gymwys ar gyfer amddiffyniad wrth bontio.

Cyngor i'r Gweinidog a'i benderfyniad

Ystyriwch felly bod y rhan fwyaf o blant yn cael digon o amddiffyniad trwy ein polisi amddiffyn wrth bontio cyfredol. Gallai unrhyw effaith negyddol ar y nifer isel o blant mewn perygl, pe na bai'r Gorchymyn Amddiffyn wrth Bontio yn cael ei ymestyn, gael ei lliniaru'n well drwy archwilio opsiynau i awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau dewisol i beidio â chodi tâl am brydau ysgol dan amgylchiadau penodol.

Er bod manteision ymestyn yr amddiffyniad wrth bontio hyd at fis Mawrth 2025 yn glir, byddai angen i'r penderfyniad i wneud hynny gael ei ystyried yng nghyd-destun yr amgylchiadau ariannol presennol, a chael ei lywio gan ein hegwyddorion i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd cyn belled ag y bo modd, a pharhau i dargedu cymorth tuag at y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Gallai parhau â'r amddiffyniad wrth bontio y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2023 gyflwyno galwadau gan awdurdodau lleol i ddarparu cyllid ychwanegol. Gallai hyn olygu y byddai gofyn torri gwariant yn sylweddol yn ystod y flwyddyn a fyddai'n effeithio

ymhellach ar hawliau plant. Byddai hynny'n arwain at ganlyniadau difrifol ac effeithiau negyddol ar blant ledled Cymru na fyddent o bosibl yn gallu cael addysg, bwyd na chymorth. Pe bai cyllid yn cael ei ailddyrranu o'r gyllideb addysg bresennol, byddai'n rhaid gwneud arbedion yn ystod y flwyddyn mewn grantiau addysg sydd eisoes yn bodoli. Mae'n debygol y byddai hyn yn golygu torri cyllidebau ysgolion. Byddai hyn yn herio hawl pob plentyn yng Nghymru i gael addysg, ac Erthygl 29 yn arbennig.

Mae angen gwneud penderfyniadau anodd iawn o ystyried cyfyngiadau'r sefyllfa ariannol bresennol. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i effaith toriadau cyllidebol yn ystod y flwyddyn i grantiau addysg ar addysg i blant ledled Cymru, yn enwedig plant dan anfantais economaidd-gymdeithasol, plant anabl a phlant ethnig lleiafrifol. Mae'r grantiau hyn yn sail i'r rhaglen diwygio addysg sy'n anelu at safonau a dyheadau uchel i bawb, gan fynd i'r afael ag effaith tloedi ar gyrhaeddiad ac uchelgais. Caiff pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, ei gefnogi i fod yn ddinesydd iach, brwdfrydig, blaengar a moesegol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Ni chynghorir bod toriadau yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn i ailddyrranu cyllid er mwyn ymestyn y polisi amddiffyn wrth bontio y tu hwnt i fis Rhagfyr 2023.

Mae MA/JMEWL/1761/23 yn ceisio cymeradwyaeth y Gweinidog i beidio ag ymestyn yr amddiffyniad wrth bontio.

Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc

Nid ymgynghorwyd ar y cynnig penodol hwn ynghylch dyfodol y Gorchymyn Amddiffyn wrth Bontio. Fodd bynnag, ymgynghorwyd yn 2018 ar gyflwyno trothwy enillion ar gyfer Credyd Cynhwysol a'r polisi cysylltiedig i amddiffyn wrth bontio.

Croesawodd nifer o'r ymatebwyr ar y pryd y cynlluniau i amddiffyn wrth bontio, gan nodi eu bod yn deg ac y byddent yn galluogi i effaith y polisi gael ei fonitro'n effeithiol. Nodwyd hefyd y byddai'n sicrhau na fyddai plant, nad oeddent bellach yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan y meini prawf cymhwysra newydd, yn cael eu rhoi dan anfantais – yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch nifer y teuluoedd na fyddai'n gymwys o dan y meini prawf newydd.

Amlygodd sylwadau eraill y gallai cynlluniau i amddiffyn wrth bontio arwain at anghydraddoldeb i deuluoedd sydd o dan yr un amgylchiadau ac yn ennill yr un maint, a rhai yn cael prydau ysgol am ddim drwy amddiffyniad wrth bontio ac eraill ddim yn gallu cael prydau ysgol am ddim oherwydd nad ydynt erioed wedi bod yn gymwys o'r blaen. Felly, yn sgil hynny bu galwadau i'r amddiffyniad wrth bontio gael ei adolygu yn flynyddol i sicrhau bod pawb sydd ei angen yn ei gael, yn hytrach na bod y rheini y mae eu sefyllfa cyflogaeth wedi gwella yn parhau i fod yn gymwys i'w gael.

Mae gwybodaeth wedi'i chasglu trwy ddulliau eraill hefyd. Yn benodol, rydym wedi cael gwybodaeth o weithgarwch cyn ymgynghori ar Strategaeth Tloedi Plant newydd i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â 3,358 o blant, pobl ifanc a theuluoedd â

phrofiad bywyd, gan gynnwys 1,953 â nodweddion gwarchoddedig. Roedd tlodi bwyd yn thema gyffredin, a nodwyd bod cost bwyd, yn enwedig bwyd iach, yn broblem a chafwyd tystiolaeth am y defnydd o Fanciau Bwyd a chynigion eraill o fwyd rhad neu am ddim. Ar wahân i hyn, tynnodd adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, sef Gobeithion i Gymru, sylw at y ffaith bod bwyd yn bryder mawr ymhlith yr 8,000 o blant a phobl ifanc a arolygwyd e.e., mae 44% o blant 7-11 oed a 25.9% o blant 11-18 oed yn poeni am gael digon o fwyd i'w fwyta.

Yn ogystal, cafwyd adroddiadau rheolaidd gan awdurdodau lleol a gyflwynodd y ddarpariaeth ar ran Llywodraeth Cymru ar y nifer a oedd yn ei defnyddio (pan oedd y cynllun ar waith) ac maent yn rhoi adborth ar nifer yr ymholiadau y maent yn eu cael gan deuluoedd a oedd yn holi cyn cyfnodau gwyliau a oedd ar ddod a fyddai'r ddarpariaeth yn parhau – sy'n dangos bod angen parhaus.

Monitro ac adolygu

Y cynnig yw peidio â chymryd camau pellach ac i beidio ag ymestyn y gorchymyn amddiffyn wrth bontio y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2023. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid cyflawni allweddol a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc – gan gynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol, yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – i fonitro effaith y penderfyniad hwn ochr yn ochr â'n dull trawslywodraethol o ymdrin â thlodi plant. Bydd nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu hamddiffyn wrth bontio yn parhau i gael eu mesur a'u monitro. A bydd deialog barhaus ag awdurdodau lleol ac ysgolion yn helpu i ddarparu gwybodaeth leol i ddeall effaith y cynnig ymhellach.